CYD-GYFARFOD O GYNGHORAU PRIFYSGOL CYMRU A PHRIFYSGOL CYMRU Y DRINDOD DEWI SANT

**Cofnodion Anghyfyngedig** y cyfarfod a gynhaliwyd am 9.30 a.m. ddydd Iau 30 Ionawr 2020 yn Ystafell 002, Adeilad IQ, SA1 Abertawe

Yn bresennol:

Venerable Randolph Thomas (Chair)
Tony Ball
Pam Berry
Andrew Curl
Margaret Evans
Tania Davies
Andrew Gibson
Eifion Griffiths
Emma Hughes
Professor Medwin Hughes
Rowland Jones
Arwel Ellis Owen
Eirlys Pritchard-Jones
Becky Ricketts
Stuart Robb
Geraint Roberts
Dr Liz Siberry
Maria Stedman
Martha Warren
Deris Williams

Yn gweinyddu:

Yr Athro Robert Brown, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil ac Arloesi)
Sarah Clark, Clerc y Cyngor
Dr Andrew Cornish, Prifathro, Coleg Sir Gâr
Shône Hughes, Pennaeth Staff
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Profiadau Myfyrwyr ac Ymgysylltu Dinesig)
Yr Athro Catrin Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd)
Gwyndaf Tobias, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyllid a Chynllunio)

Catrin Beard, Cyfieithydd
Margaret Williams, Ysgrifennydd

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 20.01<br>Ymddiheuriadau am absenoldeb | DERBYNIODD y Cynghorau ymddiheuriadau am absenoldeb gan Siân Eirian, Victoria Provis a Nigel Roberts. | |
| 20.02<br>Datganiadau o fuddiannau | DERBYNIODD y Cynghorau'r datganiadau o fuddiannau fel y'i nodir yn JCO006. | |
| 20.03<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 28 Tachwedd 2019 | CYMERADWYODD y Cynghorau Gofnodion y cyd-gyfarfod a gynhaliwyd 28 Tachwedd 2019 fel cofnod cywir (JC0037). | |
| 20.04<br>Adroddiad y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad Cadeirydd y Cyngor (JC0038).<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at y materion canlynol:<br><br>• Ymweliad Sefydliadol diweddar CCAUC â PCYDDS, y disgwylid derbyn yr adroddiad arno ym mis Chwefror 2020.<br>• Cynnydd gyda'r adolygiad annibynnol o lywodraethiant yng Nghymru, dan arweiniad Gillian Camm.<br>• Adroddiad LIC ar y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at ei gyfres ddiweddar o gyfarfodydd 1:1 gydag aelodau a diolchodd i'r aelodau am eu hamser. Byddai deilliannau generig y cyfarfodydd yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn ei gyfarfod ym mis Mai 2020. | |
| 20.05<br>Adroddiad yr Is-Ganghellor | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad yr Is-Ganghellor (JC0039).<br><br>Cyfeiriodd yr Is-Ganghellor at y materion canlynol:<br><br><u>Coronafeirws</u><br>Roedd gan swyddogion y Brifysgol strategaeth eglur yn ei lle ac roeddynt yn monitro'r sefyllfa gyda gweithgor yn cwrdd yn ddyddiol. Roedd swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â'r Llywodraeth, iechyd cyhoeddus ac asiantaethau perthnasol eraill. Roedd staff a myfyrwyr yn cael eu hysbysu am brosesau ac yn derbyn cyngor yn unol â'r cyfarwyddyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd y Brifysgol hefyd wedi gwahardd | |

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | unrhyw deithio i Tsieina. Roedd dyddiadau cychwyn cyrsiau byr i fyfyrwyr o Tsieina wedi'u gohirio.<br><br>Atgoffodd yr Is-Ganghellor aelodau am y swm sylweddol o gyllid i PCYDDS yn gysylltiedig â phartner hir-sefydlog yn Wuhan. Byddai swyddogion yn adfyfyrio ar strategaethau lliniaru ar gyfer datblygu busnes.<br><br><u>Cadair Geltaidd</u><br>Byddai'r Gadair Geltaidd newydd yn cael ei chyhoeddi'n fuan. Roedd yr unigolyn a benodwyd yn ieithydd eithriadol ac yn ysgolhaig yn y Gymraeg a byddai'r penodiad yn cael ei groesawu gan aelodau a'r ddwy brifysgol.<br><br><u>Adroddiad yr ASA</u><br>Roedd PC wedi derbyn adroddiad ymweliad monitro blynyddol yr ASA.Byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Academaidd ac yn gyffredinol roedd yn ffafriol ac wedi canmol y prosesau ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperid ar gyfer partneriaethau.<br><br><u>Adroddiad ar Addysg Ôl-16.</u><br>Roedd adroddiad cynghori wedi'i baratoi i'w ystyried gan LIC ynghylch Addysg Ôl-16. Byddai gan yr adroddiad oblygiadau i'r Brifysgol, ac roedd yn cynnwys cryn ffocws ar sgiliau galwedigaethol.<br><br><u>Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol</u><br>Roedd y CCC ar fin cyhoeddi'i gynllun strategol pum mlynedd. Cyfeiriodd yr Is-Ganghellor at y pwyslais ar staff addysgu dwyieithog o fewn y cynllun gan nodi y byddai PCYDDS yn canolbwyntio ar benodi staff priodol i ddarparu rhaglenni dwyieithog yn y dyfodol.<br><br><u>Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd</u><br>Adroddodd yr Is-Ganghellor ei fod ef a Chadeirydd y Ganolfan wedi llofnodi llythyr yn nodi trosglwyddo'r Ganolfan i mewn i PCYDDS. Nododd y cyfleoedd cyffrous roedd hyn yn eu cyflwyno ac ysbryd a pharodrwydd y Ganolfan i weithio gyda PCYDDS. Byddai'r Ganolfan yn cael ei lleoli o fewn yr Athrofa ac roedd cyfarfodydd wedi'u cynnal eisoes i symud pethau ymlaen gyda ffocws penodol ar raglenni ôl-raddedig. | |

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | <u>Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr</u><br>Ar hyn o bryd roedd swyddogion yn edrych ar y cynllunio rhwng timau Cofrestrfa a Chyllid PCYDDS er mwyn sefydlu dull â ffocws ar gyfer y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ynghylch rhyddhau cyllid yn unol â dyddiadau cychwyn tymor gwahanol yng nghanolfannau addysgu PCYDDS.<br><br><u>Bargen Ddinesig</u><br>Mae Prif Weithredwr newydd wedi'i benodi i'r Fargen Ddinesig. Roedd PCYDDS wedi'i hysbysu bod y cyllid ar hyn o bryd gan Gyngor Sir Gaerfyrddin ac y byddai'n cael ei ryddhau ym mis Mawrth. Adroddodd yr Is-Ganghellor y byddai'n ysgrifennu at Brif Weithredwr ac Arweinydd Cyngor Sir Gaerfyrddin ynghylch y mater.<br><br><u>Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf Cymru</u><br>Adroddodd yr Is-Ganghellor ar newidiadau o fewn Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf Cymru ac y byddai Barry Liles yn ymgymryd â rheoli'r Athrofa yn y cyfnod interim, gyda'r nod o sicrhau bod y ddwy gyfadran flaenorol yn gweithio'n ddi-dor fel un, yn gysylltiedig ag arloesi ac integreiddio ar draws y Brifysgol.<br><br><u>Ymweliad Sefydliadol CCAUC â PCYDDS</u><br>Gwnaeth yr Is-Ganghellor sylwadau ar Ymweliad CCAUC ar 22 Ionawr 2020. Nododd yn benodol yr ymateb cadarnhaol i gynnig y Brifysgol ynghylch addysg ran amser gan adrodd bod swyddogion yn gweithio ar brosiect â ffocws gyda deilliannau eglur er mwyn diogelu cyllid.<br><br><u>Datganiadau Ariannol Prifysgol Cymru</u><br>Roedd Swyddogion ac Archwilwyr yn gweithio ar fanylion terfynol y cyfrifon a fyddai'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Roedd y materion a oedd yn weddill yn gysylltiedig â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd a CBM.<br><br><u>Dathliadau 2022</u><br>Roedd cyfarfod wedi'i gynnal i drafod dathliadau ar gyfer deucanmlwyddiant PCYDDS yn 2022. Byddai papur ffurfiol yn cael ei gyflwyno i aelodau'n amlinellu awgrymiadau cychwynnol erbyn Ebrill 2020. Y bwriad oedd y byddai digwyddiadau'n cael eu dathlu ar draws yr holl Brifysgol gyda ffocws penodol ar fan cychwyn addysg uwch. | |

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | Cyfeiriodd yr Is-Ganghellor yn benodol at ddigideiddio'r casgliadau arbennig yn Llambed ac y byddai swyddogion yn ceisio sicrhau buddsoddiad a chyllid grantiau i gyllido'r prosiect.<br><br><u>AU-AB</u><br>Adroddodd yr Is-Ganghellor ynghylch cyfarfodydd diweddar yr UDRh ar y cyd gan nodi'r sylfeini da a oedd yn cael eu sefydlu ar gyfer y dyfodol. Adroddodd Cadeirydd Bwrdd CSG ar y parodrwydd cynyddol i gydweithio â'r Brifysgol er mwyn datblygu i'r dyfodol a hyrwyddo'r cysyniad deuol. | |
| 20.06<br>Cod Ymarfer ar gyfer Aelodau o'r Cyngor | YSTYRIODD y Cynghorau God Ymarfer arfaethedig ar gyfer aelodau o'r Cyngor (JCO040). Petai'n cael ei gymeradwyo, byddai'r Cod yn cymryd lle'r Cod presennol i aelodau Cyngor PCYDDS.<br><br>Yn y drafodaeth, cyfeiriodd aelodau at yr adran yn cyfeirio at gyfrinachedd gan gytuno y dylai'r paragraff gael ei ymestyn i nodi bod y ddyletswydd gyfrinachedd yn parhau ar ôl i aelod adael y Cyngor. Gwnaethpwyd nifer o awgrymiadau drafftio eraill.<br><br>Yn amodol ar y diwygiadau uchod, CYMERADWYODD y Cynghorau'r Cod i'w fabwysiadu ar unwaith, gan nodi bod y Clerc yn bwriadu ysgrifennu at aelodau'n unigol gan eu gwahodd i gytuno i'w gynnwys yn ffurfiol. Wedi hynny byddai'r broses hon yn cael ei chwblhau'n flynyddol, fel sy'n digwydd gyda Chod cyfredol PCYDDS. Byddai'r Cod ei hun yn cael ei adolygu bob dwy flynedd gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu. | <br><br><br><br><br><br><br>Clerc i symud ymlaen â hyn |
| 20.07<br>Adroddiad cynnydd ar yr adolygiad o effeithiolrwydd | YSTYRIODD y Cynghorau'r adroddiad cynnydd ar y cynllun gweithredu integredig a oedd yn deillio o'r Adolygiadau Effeithiolrwydd Llywodraethu (JCO041).<br><br>Adroddodd y Clerc fod y cynllun gweithredu wedi'i ystyried gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu ym mis Hydref 2019 ac wedi'i ddiweddaru ar gyfer ymweliad CCAUC. Bellach roedd wedi'i gyhoeddi ar y tudalennau gwe Llywodraethu.<br><br>Nododd yr aelodau fod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau. Byddai diweddariad pellach yn cael ei ddarparu ar gyfer y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn ei gyfarfod ym mis Mai 2020. | |

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | | |
| 20.08<br>Ymgynghoriad y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion: Cod Llywodraethu Addysg Uwch | YSTYRIODD y Cynghorau'r Cod Llywodraethu Addysg Uwch drafft diwygiedig (JCO042) a lansiwyd gan y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion fel dogfen ymgynghori.<br><br>Adroddodd y Clerc mai yn ei ddull a'i gynllun y gwelid y prif newid er mwyn gwneud y Cod yn fwy perthnasol i'r holl sefydliadau sy'n cynnig AU. Seilid y fersiwn newydd ar sail "cymhwyso neu esbonio", lle rhoddwyd set o werthoedd, egwyddorion ac elfennau i ddarparwyr. Gallai sefydliadau ddewis pa rannau o'r Cod oedd yn berthnasol iddynt, ond byddai disgwyl iddynt esbonio a gallu cyfiawnhau'r rhesymau dros eu dewisiadau.<br><br>Dynododd aelodau nifer o faterion i'w cynnwys yn yr ymateb i'r ymgynghoriad a gofynnwyd iddynt gyflwyno unrhyw sylwadau pellach i'r Clerc. | Clerc i ymateb ar ran y Cynghorau |
| 20.09<br>Adroddiadau TRAC PC a PCYDDS 2018-19 | YSTYRIODD a CHYMERADWYODD y Cynghorau Adroddiadau TRAC PC a PCYDDS ar gyfer 2018/19 (JCO043a a JCO043b). | |
| 20.10<br>Athrawon Ymarfer | CYMERADWYODD y Cynghorau'r argymhelliad gan Senedd PCYDDS i benodi tri Athro Ymarfer (JCO044). | |
| 20.11<br>Adroddiad ar Gamau Gweithredu'r Cadeirydd | DERBYNIODD y Cynghorau'r adroddiad yn amlinellu'r camau gweithredu a gymerwyd gan Gadeirydd PCYDDS ers y cyfarfod diwethaf (JCO045). | |
| 20.12<br>Datganiadau o fuddiannau | Ni ddatganwyd unrhyw wrthdaro buddiannau ychwanegol. | |
| 20.13<br>Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf | Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn ystod y dyddiau cwrdd i ffwrdd ar 24/25 Mawrth 2020. | |
| | | |

Terfynwyd y cyfarfod am 11.45